ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGHORWYR CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

Y Cynghorydd: KEITH HAYDEN

Plaid: LLAFUR

Ward: GEORGETOWN

Adran 1 – Rolau a Chyfrifoldebau

Dirprwy Faer Blaenau Gwent.

Rôl y dirprwy Faer oedd mynychu derbyniadau a digwyddiadau ar ran cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.
Bod yn gynrychiolydd swyddogol iddynt.

Roeddwn hefyd yn aelod o'r Pwyllgorau Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Amgylchedd, Trosolwg Corfforaethol.

Yn ogystal bod yn gynrychiolydd ward trigolion Georgetown ym mhroses gwneud penderfyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

*** Darparwyd y ffigurau gan y Cynghorydd** **^ Darparwyd y ffigurau gan CBSBG**

Adran 2: Gweithgaredd Etholaethol

Rwyf wedi helpu preswylwyr gydag ymholiadau, pryderon a phroblemau yn ymwneud â gwasanaethau rhedeg y Cyngor a chysylltu â'r heddlu lleol a'r gwasanaethau tân.
Roedd yn rhaid i mi, yn fy rôl fel Cynghorydd Ward, helpu a chefnogi trigolion â phroblemau a phryderon. Rwyf wedi rhestru rhai isod.
Dyledion a thaliadau Treth y Cyngor, atgyweirio ffyrdd, cael wal beryglus ar eiddo wedi'i atgyweirio, anifeiliaid crwydredig, (defaid a cheffylau), rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai trwy Tai Calon, Cymdeithasau Tai Unedig Cymru, gan roi cyngor ar wasanaethau'r Cyngor, e.e. taliadau budd-daliadau
Cynghori ar gyllid grant ar gyfer sefydliadau a chlybiau ac ati.

Rwyf hefyd wedi delio â phryderon i Western Power, Dŵr Cymru a B.T. Open-world o ran band eang.

Rwyf hefyd wedi adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu lleol ac wedi dilyn hyn gydag Adran Diogelwch Cymunedol y Cyngor ar y ffordd orau i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Wedi ymdrin yn y gorffennol gyda llifogydd yn Vale View a Peacehaven.

Wedi trefnu system ddraenio newydd i ddisodli hen system yn Vale View.

Ymdrin â threfniadau i drigolion gael mynediad at atgyfeiriadau Gwasanaethau Cymdeithasol a phreswylwyr ar y rhestr aros am dai a hefyd ymdrin â materion landlordiaid preifat.

Yn ogystal, bu'n rhaid imi ddelio â materion tipio anghyfreithlon a gweithio gydag Adran Amgylchedd y Cyngor i gael gwared â sbwriel yn ogystal â gwaredu o'r briffordd hen gerbydau a oedd wedi'u gadael.

Adran 3: Gweithgareddau Gweithredol a Chraffu

Rwyf wedi cymryd rhan ym Mhwyllgorau Craffu'r Cyngor, gan ofyn cwestiynau yn ymwneud â gwasanaethau amgylcheddol, gwasanaethau cymdeithasol a materion corfforaethol o fewn y Cyngor.

Wedi trefnu cyfarfod gyda'r cyhoedd i fynd i'r afael â'u pryderon ynghylch ailgylchu yn y Fwrdeistref. Rydym yn gwrando ar bryderon trigolion a darganfod atebion i ddatrys eu pryderon a'u hanawsterau wrth ddefnyddio'r gwasanaeth newydd.

Adran 4: Hyfforddiant a Datblygiad

Rwyf wedi mynychu nifer o ddiwrnodau hyfforddiant ynghylch rhaglenni deddfwriaethol y Cyngor.

Rwyf wedi cael Tystysgrif yn y Rhaglen Academi Arweinyddiaeth ar gyfer Llywodraeth Leol.

Adran 5: Mentrau, Gweithgareddau a Materion Arbennig

Rwy'n gynrychiolydd ar gyfer Eglwys St. Georges / St. James ar gorff esgobaeth Trefynwy.

Hefyd mynychais y Cyfarfodydd Grŵp Tenantiaid a Phreswylwyr Peacehaven.

Cynghori a chefnogi busnesau, clybiau a sefydliadau lleol i gael arian grant; e.e Canolfan Gymunedol Georgetown, Orpheus Tredegar, Eglwys Methodistiaid Vale Terrace.

Llofnod y Cynghorydd: *Keith Hayden*

Dyddiad: 27ain Mehefin 2017